Cynllun Deisebau

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Brif Gyngor i lunio a chyhoeddi Cynllun Deisebau sy'n nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt (gan gynnwys Deisebau Electronig). Cyfeirir at Ddeisebau Electronig yn y cynllun hwn fel e-ddeisebau. Mae'r Cynllun Deisebau hwn yn un elfen o'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ehangach.

1.2 Dogfennau yw deisebau (boed yn electronig neu'n ffisegol) sy'n cynnwys manylion materion sy'n bwysig i gymunedau a Dinas a Sir Abertawe yn ei chyfanrwydd, wedi'u llofnodi gan etholwyr lleol sy'n cefnogi'r cam gweithredu arfaethedig.

1.3 Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau hwn gan y Cyngor ar **24 Mai 2022** a chaiff ei adolygu gan y cyngor bob dwy flynedd.

1.5 Mae copi o'r Datganiad Preifatrwydd sy'n ymwneud â'r Cynllun Deiseb hwn ar gael yn http://www.abertawe.gov.uk/deisebau

1.6 Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cynllun Deisebau hwn gallwch gysylltu â'r:
Tîm Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas SA1 4PE democratiaeth@abertawe.gov.uk 01792 63 6923

2. Cyn cyflwyno Deiseb i'r cyngor

2.1 Cyn cyflwyno deiseb, anogir preswylwyr i:

a) Gysylltu â'r cyngor i weld a fyddai cais am wasanaeth cyffredin yn datrys y mater. www.abertawe.gov.uk

b) Cysylltu â Chynghorydd(wyr) ward perthnasol i weld a allant helpu. www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr

3. Deisebydd Arweiniol

3.1 Mae angen enw a manylion cyswllt y person a ddechreuodd y ddeiseb (Deisebydd Arweiniol) er mwyn caniatáu cyswllt rhwng y cyngor a'r Deisebydd Arweiniol.
Dim ond y Deisebydd Arweiniol y cysylltir ag ef mewn perthynas â'r Ddeiseb. Ni fydd manylion cyswllt y Deisebydd Arweiniol yn cael eu rhoi ar y wefan.

3.2 Os na chaiff Deisebydd Arweiniol ei nodi, cysylltir â llofnodwyr y Ddeiseb i gytuno pwy ddylai weithredu fel y Deisebydd Arweiniol.

4. Pwy all godi deiseb?

4.1 Rhaid i lofnodwyr y ddeiseb fyw, gweithio neu astudio yn ardal Cyngor Abertawe.

4.2 Gall pobl o bob oed lofnodi deisebau.

5. Cynnwys deiseb (Gofyniad am Enwau, Cyfeiriadau a Llofnodion)

5.1 At ddibenion y Cynllun Deisebau hwn, rhaid i ddeiseb gynnwys:

a) Datganiad clir a chryno o'r pryder a'r hyn yr hoffai'r deisebwyr i'r cyngor ei wneud mewn ymateb i hyn. Rhaid i ddeisebau ymwneud â rhywbeth y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano neu y mae gan y cyngor rywfaint o ddylanwad uniongyrchol drosto.

b) Os bydd y cyngor yn derbyn deiseb nad yw'n ymwneud â rhywbeth dan reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y cyngor, caiff ei dychwelyd i'r Deisebydd Arweiniol gydag esboniad o'r penderfyniad ynghylch pam na all y cyngor ymdrin â'r mater ymhellach.

c) **Deisebau Papur:** Rhaid iddynt gynnwys enw'r deisebydd, ei gyfeiriad, ei gôd post a'i lofnod gwirioneddol.

d) **E-ddeisebau:** Rhaid iddynt gynnwys enw'r deisebydd, ei gyfeiriad, ei gôd post a chyfeiriad e-bost dilys. Nid oes angen llofnodion. Rhaid defnyddio llwyfan e-ddeisebau ar-lein y cyngor.
http://www.abertawe.gov.uk/deisebau

6. Cyflwyno deiseb bapur

6.1 Rhaid nodi geiriad y ddeiseb yn llawn ar bob dalen (neu ar ochr dalen) lle gofynnir am lofnodion. Bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd os yw'r geiriad yn aneglur.

6.2 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r "Ffurflen Templed Deisebau". Mae'r ffurflen yn darparu'r brif wybodaeth sy'n ofynnol wrth gyflwyno deiseb.

7. Cyflwyno e-ddeiseb

7.1 Mae'r cyngor yn croesawu e-ddeisebau sy'n cael eu creu a'u cyflwyno drwy www.swansea.gov.uk/petitions a www.abertawe.gov.uk/deisebau

7.2 Gellir cyflwyno e-ddeisebau a grëwyd drwy wefannau ar wahân i wefan y cyngor ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf fel y'u nodir.

7.3 Rhaid i e-ddeisebau ddilyn yr un canllawiau ag ar gyfer Deisebau Papur ac yn ogystal:

i) rhaid i e-ddeisebau gynnwys enw'r deisebydd, ei gyfeiriad, ei gôd post a chyfeiriad e-bost dilys. Nid oes angen llofnodion.
ii) rhaid penderfynu ar y cyfnod y bydd y ddeiseb ar agor i lofnodwyr (llofnod) ar y dechrau. Ni chaniateir i unrhyw ddeiseb fod ar agor am 6 mis neu fwy.

7.4 Pan fydd e-ddeiseb wedi'i chyflwyno ar wefan y cyngor, bydd y ddeiseb yn cael ei chydnabod o fewn 5 niwrnod gwaith a bydd hyn yn cynnwys dolen i'r ddeiseb. Ar ôl i'r e-ddeiseb gyrraedd ei dyddiad gorffen, ni dderbynnir rhagor o lofnodion ac yna ymdrinnir â hi dan y Cynllun Deisebau.

7.5 Pan fyddwch yn creu e-ddeiseb, gall gymryd 5 niwrnod gwaith cyn ei chyhoeddi ar-lein. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i ni wirio bod y cynnwys yn addas cyn iddo fod ar gael i'w lofnodi. Os yw'n addas, bydd y cyngor yn sicrhau bod yr e-ddeiseb yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg ar y wefan.

7.6 Os ystyrir na ellir cyhoeddi eich e-ddeiseb am unrhyw reswm, bydd y cyngor yn cysylltu â chi o fewn yr amser hwn i esbonio. Byddwch yn gallu newid ac ailgyflwyno eich deiseb os dymunwch. Os na fyddwch yn gwneud hyn o fewn 5 niwrnod gwaith, bydd crynodeb o'r e-ddeiseb a'r rheswm pam nad yw wedi'i derbyn yn cael ei gyhoeddi dan yr adran 'Deisebau a Wrthodwyd' ar y wefan.

7.7 Pan fydd e-ddeiseb wedi cau i lofnodion, caiff ei chyflwyno'n awtomatig i'r Gwasanaethau Democrataidd. Yn yr un modd â deiseb bapur, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 5 niwrnod gwaith.

8. Pa ddeisebau na fydd y cyngor yn eu derbyn?

8.1 Rhaid i ddeisebau fod mewn perthynas â rhywbeth sy'n dod dan gylch gwaith y cyngor. Bydd gan y Swyddog Monitro ddisgresiwn o ran a yw deiseb yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cynllun Deisebau. Ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb sy'n methu â bodloni'r meini prawf.

8.2 Ni fydd y cyngor yn derbyn deiseb ar gyfer yr amgylchiadau canlynol:

a) Os yw'n dyblygu deiseb gydamserol arall. Yn yr achos hwn, bydd llofnodion yn cael eu hychwanegu at y ddeiseb gyntaf o'r fath i'w derbyn gan y cyngor.

b) Os yw'n ailadrodd deiseb a dderbyniwyd o fewn y chwe mis blaenorol, p'un a yw'r Deisebydd Arweiniol yr un fath ym mhob achos ai peidio.

c) Os yw'r cynnwys yn bersonol, yn anghwrtais, yn ddifenwol neu'n flinderus ei natur ym marn y Prif Swyddog Gweithredol neu Swyddog Monitro'r cyngor

ch) Os daw'n amlwg bod enw, cyfeiriad neu lofnod unrhyw etholwr lleol wedi'u hychwanegu at y ddeiseb heb ei ganiatâd penodol.

d) Os nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb drosto neu nad yw'n effeithio ar ardal weinyddol na dinasyddion y cyngor.

dd) Byddai angen datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig mewn ymateb.

e) Mae'n ymwneud ag amgylchiadau personol neu ymddygiad unrhyw swyddog ac Aelod neu amodau gwasanaeth gweithwyr.

f) Mae'n ymwneud ag unigolyn, grŵp neu fusnes penodol neu amgylchiadau penodol y deisebydd ei hun.

ff) Byddai y tu hwnt i awdurdod y cyngor neu'n anghyfreithlon iddo ei ystyried.

g) Mae'n ymwneud â mater sy'n destun achos cyfreithiol neu orfodi neu apêl i lys neu dribiwnlys neu i un o Weinidogion y Llywodraeth neu'r Cynulliad Cenedlaethol neu ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

ng) Mae'n ymwneud â gweithgareddau ac amcanion plaid neu sefydliad gwleidyddol.

h) Byddai angen gwario swm anghymesur o amser, arian neu ymdrech i baratoi'r ateb.

i) Mae'r ddeiseb yn ceisio gwrthdroi penderfyniad a wnaed yn gyfreithlon.

l) Gellir ymdrin â'r mater yn fwy priodol fel rhan o ymateb i ymgynghoriad ac os felly caiff ei gyfeirio at gorff priodol y cyngor a'i gynnwys fel rhan o'r dogfennau ymgynghori.

8.3 Os bydd y cyngor yn gwrthod eich deiseb neu os ydych yn teimlo nad yw'r cyngor wedi delio â'ch deiseb yn iawn, cysylltwch â Thîm Cwynion Corfforaethol y cyngor a fydd yn adolygu'ch cwyn ac yn rhoi gwybod i chi am y camau a fwriedir. Rhowch esboniad byr o'ch rhesymau dros gyfathrebu â ni:

Cwynion Corfforaethol, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PN cwynion@abertawe.gov.uk

9. Beth fydd y cyngor yn ei wneud pan fydd yn derbyn fy neiseb?

9.1 Anfonir cydnabyddiaeth at y Deisebydd Arweiniol o fewn **10** niwrnod gwaith clir ar ôl derbyn y ddeiseb. Bydd yn rhoi gwybod i chi beth mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud gyda'r ddeiseb a phryd y gallwch ddisgwyl clywed gan y cyngor eto. Bydd copi o'ch deiseb hefyd yn cael ei anfon at y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol www.abertawe.gov.uk/Cabinet

9.2 Os yw deiseb yn ymwneud â mater lleol penodol sy'n effeithio ar ward(iau) penodol, yna bydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r Cynghorydd(wyr) priodol.

9.3 Bydd y ddeiseb yn cael ei chyhoeddi ar Gofrestr Deisebau'r cyngor ar wefan y cyngor. www.abertawe.gov.uk/deisebau

9.4 Os yw'r cyngor o'r farn y gall fodloni'r hyn y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano, gall y gydnabyddiaeth gadarnhau pa gamau sydd wedi'u cymryd ar y cais a bydd y ddeiseb yn cael ei chau.

9.5 Os bydd unrhyw gam arall yn cael ei gynnig neu ei fwriadu, bydd y gydnabyddiaeth yn esbonio hyn. Os oes gan y ddeiseb ddigon o lofnodwyr i sbarduno dadl mewn cyfarfod o'r cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgor, yna bydd y gydnabyddiaeth yn cadarnhau hyn ac yn rhoi cyngor ynghylch pryd a ble y cynhelir y cyfarfod. Os oes angen ymchwilio'n fanylach i'r ddeiseb, cewch wybod am gamau nesaf y cyngor.

9.6 Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i wirio llofnodwyr yn ôl y gofyn. Dylai deisebwyr sicrhau bod cyfeiriad a chôd post dilys yn cael eu cynnwys ar gyfer pob deisebydd sy'n darparu cyfeiriad cartref (os yw'n byw yn ardal Cyngor Abertawe) neu gyfeiriad gwaith (os yw'n gweithio neu'n rhedeg busnes yn ardal Cyngor Abertawe). Bydd y manylion hyn yn cael eu hystyried wrth nodi a oes digon o lofnodwyr gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Cyngor Abertawe i sbarduno dadl.

9.7 Ni fydd unrhyw ddeiseb sy'n dyblygu neu'n agos at ddyblygu deiseb arall y mae'r cyngor eisoes wedi'i derbyn yn cael ei hystyried o fewn cyfnod o 6 mis, er y bydd Swyddogion yn arfer eu disgresiwn mewn achosion unigol. Cynghorir bod manylion deisebau blaenorol yn cael eu gwirio ar y wefan ar ddechrau'ch deiseb. www.abertawe.gov.uk/deisebau

9.8 Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae'r cyngor yn ei wneud mewn ymateb i'r deisebau a dderbyniwyd, bydd manylion yr holl ddeisebau a gyflwynir, gan gynnwys y rhai sy'n aros i gael eu gweithredu, yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

9.9 Yn y cyfnod cyn Etholiad neu Refferendwm, efallai y bydd angen i'r cyngor drin unrhyw ddeisebau a dderbynnir yn wahanol yn amodol ar y canllawiau Cyhoeddusrwydd Cyn yr Etholiad. Dan amgylchiadau o'r fath, caiff y rhesymau dros hyn eu hesbonio i'r Deisebydd Arweiniol.

9.10 Gall ymateb y cyngor hefyd ddibynnu ar nifer y bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae'r tabl yn nodi'r trothwyon:

Nifer y llofnodion	**Ymateb**
1-49	Ymateb gan y Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth perthnasol
50-499	Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol
500+	Wedi'i gyfeirio i'w drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn

10. Dadleuon Cyfarfod Llawn y Cyngor

10.1 Os bydd Deiseb yn cynnwys 500+ o lofnodion, bydd yn cael ei thrafod gan gyfarfod llawn o'r cyngor. Bydd y cyngor yn ymdrechu i ystyried y ddeiseb yn ei gyfarfod nesaf, er efallai na fydd hyn yn bosib ar rai achlysuron ac yna bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y cyfarfod canlynol. Ni fydd deisebau'n cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Blynyddol y cyngor, y Cyngor Arbennig, y Cyngor Seremonïol neu yng nghyfarfod Pennu Cyllidebau'r cyngor.

10.2 Bydd y Deisebydd Arweiniol yn cael **3** munud i annerch y cyngor ar bwnc y ddeiseb. Yna bydd deiliad portffolio perthnasol y Cabinet yn cael **3** munud ar gyfer hawl i ymateb ac yna bydd y ddeiseb yn cael ei thrafod gan y cyngor am uchafswm o 30 munud. Mae gan ddeiliad portffolio perthnasol y Cabinet hawl arall i ymateb, am ddim mwy na **3** munud, ar ddiwedd y ddadl ar y mater.

10.3 Bydd y cyngor yn penderfynu sut i ymateb i'r ddeiseb yn y cyfarfod hwn. Gallant benderfynu cymryd y camau y mae'r ddeiseb yn gofyn amdanynt, penderfynu peidio â chymryd y camau y gofynnwyd amdanynt am resymau a gyflwynwyd yn y ddadl, neu gomisiynu ymchwiliad pellach i'r mater, er enghraifft gan Bwyllgor perthnasol.

10.4 Lle bo'r mater yn un y mae'n ofynnol i weithrediaeth y cyngor, sef y Cabinet, wneud y penderfyniad terfynol arno, bydd y cyngor yn penderfynu a ddylid gwneud argymhellion i lywio'r penderfyniad hwnnw.

10.5 Bydd y Deisebydd Arweiniol yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Bydd y cadarnhad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor.

11. Canlyniadau posib deiseb

11.1 Bydd yr ymateb i ddeiseb yn dibynnu ar yr hyn y mae deiseb yn gofyn amdano a faint o bobl sydd wedi'i llofnodi, ond gall gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Cynyddu cyhoeddusrwydd ar gyfer mater, ac ymwybyddiaeth ohono.
- Cyflwyno deiseb i gyfarfod o'r Cabinet gan roi sylw i swyddogaethau gweithrediaeth.
- Cymryd y camau y gofynnir amdanynt yn y ddeiseb (naill ai dan bwerau dirprwyedig y Swyddog neu fel arall fel y bo'n briodol dan yr holl amgylchiadau).
- Mynd â'r mater i'r cyngor llawn fel y gellir ystyried y ddeiseb. Comisiynu ymchwil.
- Ysgrifennu at y Deisebydd Arweiniol yn nodi barn y cyngor am y cais yn y ddeiseb.
- Cyfeirio'r ddeiseb at Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Cynnal cyfarfod gyda'r Deisebydd Arweiniol.
- Anfon eich deiseb ymlaen at gorff arall / lobïo corff arall os yw'n rhywbeth nad oes gan y cyngor reolaeth uniongyrchol drosto.
- Mewn materion yr ymdrinnir â hwy gan awdurdod dirprwyedig, bydd y Swyddog cyfrifol yn ymateb i'r ddeiseb. ➢ Rhyw ymateb priodol arall.

12. Diogelu Data a GDPR

12.1 Cyn pen 3 mis i ymateb ffurfiol y cyngor i ddeiseb, bydd deiseb bapur yn cael ei dinistrio'n ddiogel a bydd pob e-lofnod ar ddeiseb ar-lein yn cael ei ddileu.

13. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

13.1 Ni chaniateir deisebau sy'n geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Sylwadau, Canmoliaeth na Chwynion. Defnyddiwch y dolenni canlynol:

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
www.abertawe.gov.uk/adolygucaisrhyddidgwybodaeth

Cyflwyno Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
www.abertawe.gov.uk/cwynion

Atodiad 1

Cyngor Abertawe - Ffurflen Templed Deisebau

Nodiadau Arweiniol:

1. Defnyddiwch y templed awgrymedig hwn.
2. Rhaid i dudalennau ychwanegol hefyd gynnwys pwnc y ddeiseb ar frig pob tudalen.
3. Rhaid i'r Deisebydd Arweiniol fyw, gweithio neu fod yn berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe.
4. Os hoffech lofnodi'r ddeiseb hon, nodwch eich cyfeiriad yng Nghyngor Abertawe os ydych yn byw, yn gweithio neu'n berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe gan y bydd hyn yn cyfrif tuag at unrhyw drothwy i'w drafod yng nghyfarfodydd llawn y cyngor (lle mae pob Cynghorydd yn bresennol).
5. Bydd llofnodwyr o'r tu allan i ardal Cyngor Abertawe yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r mater sy'n cael ei godi, ond ni fyddant yn cyfrif tuag at y niferoedd sy'n ofynnol ar gyfer dadleuon ffurfiol o dan y Cynllun Deisebau.
6. Cyfeiriwch at y Cynllun Deisebau yn www.abertawe.gov.uk/deisebau am ragor o wybodaeth.

Manylion Cyswllt y Deisebydd Arweiniol

Enw llawn	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn gartref	
Rhif ffôn symudol	
Eich cyfeiriad e-bost	
Ydych chi'n byw/yn gweithio/yn berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe? **Nodwch bob un sy'n berthnasol**	
Llofnod	

Deiseb (Llenwch bob rhan)

Teitl y ddeiseb:	
Diben y ddeiseb: i) Amlinellwch ddiben y ddeiseb yn glir. ii) Yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni. **Sylwer:** Rhaid dangos diben y ddeiseb ar bob tudalen o'r ddeiseb.	
Crynodeb o'r camau a gymerwyd eisoes (os yw'n berthnasol):	

Rhif	**Enw**	**Cyfeiriad**	**Côd post**	**Llofnod**	**Cyfeiriad e-bost (os yw'n bosib)**

Dychweler at: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE